CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR
Y CYD CYNGOR SIR YNYS MÔN
A CHYNGOR GWYNEDD

DATGANIAD
GWRANDAWIAD
SESIWN 9 (WYLFA)

YMATEBYDD: HORIZON NUCLEAR
POWER WYLFA LIMITED (CYF: 2919)

Awst 2016

Ein Cyf: Q60570

# Cynnwys

1 CYFLWYNIAD ....................................................................................................................1
2 DADANSODDIAD CYNLLUNIO ......................................................................................................4
3 NEWIDIADAU A GEISIR .............................................................................................................9
ATODIAD 1 - TRA1: MAP 1 DATBLYGIADAU A CHYNIGION RHWYDWAITH TRAFNIDIAETH ............................10

## Dogfennau

Dylid darllen y datganiad hwn ar y cyd â chyflwyniadau ar wahân yr ymatebydd, fel y rhestrir isod:

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 1: PARATOI'R CYNLLUN, GWELEDIGAETH A STRATEGAETH

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 2: DARPARIAETH TAI

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 5: ECONOMI – CYFLOGAETH, MANWERTHU A THWRISTIAETH

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 6: AMGYLCHEDD HANESYDDOL A NATURIOL

## Atodiadau

Atodiad 1 – TRA1 Map 1 Datblygiadau a Chynigion Rhwydwaith Trafnidiaeth

# 1 CYFLWYNIAD

## a) Yr ymatebydd

1.1 Mae'r ymatebydd, Horizon Nuclear Power Wylfa Limited ("Horizon"), yn rhoi cynigion ymlaen ar gyfer adeiladu a gweithredu gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa a datblygiadau cysylltiedig ("Prosiect Wylfa Newydd" neu'r "Prosiect"). Mae'r Datganiad Gwrandawiad hwn (y "Datganiad") yn delio'n benodol â Sesiwn 9 – Wylfa.

1.2 Parhaodd Horizon i gynnal deialog cynhyrchiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn a ("CSYM") a Chyngor Gwynedd (gyda'i gilydd, "y Cynghorau") ar ôl cyflwyno ei sylwadau i wahanol gamau ymgynghori y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ("y Cynllun"). Mae Horizon wedi gweithio gyda'r Cynghorau i ddod i gytundeb ar faterion lle bo hynny'n bosibl a bydd hyn yn cael ei nodi yn y Datganiad o Dir Cyffredin ("SoCG") sydd i gael ei ffeilio ar 23 Awst.

1.3 Mae'r Datganiad hwn yn ymdrin â'r materion sy'n weddill lle naill ai na chyrhaeddwyd cytundeb, neu lle mae trafodaethau yn mynd yn eu blaenau. Darperir diweddariad ar lafar ar unrhyw faterion a allai gael eu cytuno yn dilyn hynny rhwng Horizon a'r Cynghorau rhwng cyflwyno'r Datganiad hwn a'r Archwiliad Cyhoeddus ("EiP") a sesiynau gwrandawiad perthnasol.

1.4 Ystyria Horizon ei bod yn hanfodol nad yw polisïau cynllunio sy'n dod i'r amlwg yn tanseilio neu danamcangyfrif y brys sydd i sicrhau capasiti trydan newydd, gan gynnwys ynni niwclear newydd. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r angen a phwysigrwydd datblygiad seilwaith o bwys cenedlaethol yn Adran 1(b) o Ddatganiad Gwrandawiad 1 (Paratoi'r Cynllun, Gweledigaeth a Strategaeth).

1.5 Yn unol â hynny, ac fel yr eglurir yn y Datganiad hwn, mae Horizon yn ystyried ei bod yn ofynnol gwneud diwygiadau penodol i Bolisi TRA1 a map cynigion map 1 i sicrhau cadernid y Cynllun. Ceir manylion y newidiadau arfaethedig i'r polisïau hynny yn Adran 3 ac Atodiad 3.

1.6 Yn bwysig, mae Horizon hefyd yn ystyried bod angen nifer o ddiwygiadau i bolisïau eraill yn y Cynllun, y ceir manylion ohonynt yn natganiadau gwrandawiad eraill Horizon fel a ganlyn:

- **Datganiad Gwrandawiad i sesiwn 1 (Paratoi'r Cynllun, Gweledigaeth a Strategaeth)**: PS1 (ond sydd hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer pryderon cyffredinol Horizon am y Cynllun);
- **Datganiad Gwrandawiad i sesiwn 2 (Darpariaeth tai)**: TAI3 (ni cheisir newidiadau i PS12, PS15, ISA2, ISA5, TAI5, TAI8, TAI9, TAI14 – TAI17 (yn gynhwysol) o dan y Datganiad Gwrandawiad hwn, yn destun i gytuno'r newidiadau diweddaraf i TAI3);
- **Datganiad Gwrandawiad i sesiwn 5 (Economi – Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth)**: CYF1, CYF4, PS12, MAN6, TWR1, TAI3 a Pharagraffau 7.3.25 & 7.3.55; a
- **Datganiad Gwrandawiad i sesiwn 6 (Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol)**: PS16 a Map Cyfyngiadau 1.

1.7 Dim ond manylion o newidiadau a gynigir i bolisi TRA1 a Map Cynigion a geir yn y Datganiad hwn i osgoi ailadrodd sesiynau gwrandawiad eraill ac mewn ymateb uniongyrchol i gwestiynau a ofynnwyd gan yr Arolygydd.

**b) <u>Strwythur y Datganiad Gwrandawiad</u>**

1.8 Dengys y Datganiad hwn yng nghyd-destun (a) uchod bod Horizon yn dadlau nad yw'r Cynllun yn gadarn mewn perthynas â'r tri mater a nodir ym mharagraff 1.6 isod, pan gaiff ei asesu yn erbyn y prawf cadernid a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, 2016) ("Polisi Cynllunio Cymru") a'r deg maen prawf cadernid a nodir yn y Cynllun[1].

[1] Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfunol o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

1.9 Cyfyngir y datganiad hwn i faterion a godwyd gan yr Arolygydd yn yr Agenda Materion ar gyfer Sesiwn 1, sef:

- 3.(b) A yw'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer datblygu seilwaith cysylltiedig i hwyluso'r prosiect, gan gynnwys trafnidiaeth?

- 3.(c) A yw'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer tai i weithwyr adeiladu a chyfleusterau cysylltiedig, yn ystod y cyfnod adeiladu? A yw'r Cynllun yn ymdrin yn effeithiol â'r datblygiadau hyn ar ôl adeiladu?

- 3.(e) A ddylai'r Cynllun gynnwys cyfres o bolisïau penodol i ymdrin â phrosiect Wylfa Newydd? A yw'r Cynllun, a gefnogir gan y Canllawiau Cynllunio Atodol arfaethedig diwygiedig NNB Wylfa, yn darparu fframwaith priodol ac effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd?

1.10 Fel yr amlinellir uchod, mae Horizon hefyd yn dibynnu ar ei gyflwyniadau mewn perthynas â Sesiynau 1 (Paratoi'r cynllun, gweledigaeth a strategaeth), 2 (Darpariaeth tai), 5 (Economi – Cyflogaeth, manwerthu a thwristiaeth), a 6 (Amgylchedd hanesyddol a naturiol) fel y manylir ym mharagraff 1.6 uchod.

1.11 Mae Adran 2 o'r datganiad hwn yn rhoi dadansoddiad o'r Cynllun ac asesiad o'i gadernid yn erbyn y meini prawf a nodir yn PCC[2] a'r Cynllun ei hun[3], mewn perthynas â'r materion dan sylw a godwyd gan yr Arolygydd.

1.12 Mae Adran 3 yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig y mae Horizon yn eu hystyried yn hanfodol i sicrhau cadernid y Cynllun.

[2] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

[3] Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrilll 2016)

## 2 DADANSODDIAD CYNLLUNIO

**2.1** Nid yw'r Cynllun ar hyn o bryd yn darparu fframwaith polisi digon clir i gefnogi a darparu’r rheolaeth angenrheidiol ar gyfer elfennau sylweddol o Brosiect Wylfa Newydd. Mae cryn ansicrwydd ynghylch pa bolisïau sy'n berthnasol, a sut y byddant yn cael eu defnyddio. Gan fod Horizon angen datblygiadau cysylltiedig er mwyn cyflenwi Wylfa Newydd, mae hyn yn cyflwyno risg clir iawn i'r Prosiect ei hun.

2.2 Mae Horizon yn parhau i fod o'r farn mai polisïau penodol Wylfa Newydd fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu fframwaith polisi sydd ddigon clir. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn adran 2(c) y Datganiad hwn, mae'r UPCC yn gwrthwynebu'n gryf gyflwyno polisïau penodol Wylfa Newydd ac wedi gwrthod ymgysylltu ar eiriad polisïau o'r fath. O ganlyniad, mae Horizon yn mynd ar drywydd ei opsiwn amgen o geisio diwygiadau penodol i bolisïau eraill er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Mae Datganiad Gwrandawiad 1 yn amlinellu yn fanylach pam bod Horizon wedi canolbwyntio ar geisio diwygiadau penodol i bolisïau presennol y Cynllun.

**a) A yw'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer datblygu seilwaith cysylltiedig i hwyluso'r prosiect, gan gynnwys trafnidiaeth?**

*(Cwestiwn 3(b) yn Datganiad Gwrandawiad 9 - Agenda Materion)*

2.3 Mae cyflenwi Prosiect Wylfa Newydd yn dibynnu ar amrywiaeth o seilwaith ategol gan gynnwys cyfleuster Llwytho Morol ("MOLF"), Seilwaith Oeri Dŵr, morgloddiau a gwelliannau i'r briffordd. Mae ymateb Horizon yn y Datganiad Gwrandawiad hwn yn gyfyngedig i welliannau priffyrdd, sef gwelliannau arfaethedig i ffordd yr A5025 sy'n cynnwys lledu ac ail-wynebu rhannau o'r A5025. Maent yn hanfodol i gyflenwi Prosiect Wylfa Newydd, gan hwyluso taith ddiogel cerbydau nwyddau trwm i Ardal Ddatblygu Wylfa Newydd.

2.4 'Ardaloedd Gwella A5025' dynodedig Map Cynigion CDLl ar y Cyd Adnau (2015). Nododd Rhan 4(iii) o'r polisi TRA1 drafft yn Natganiad Ysgrifenedig y Cynllun Adnau yr A5025 Fali i Wylfa Newydd / Amlwch i Wylfa Newydd a gwelliannau seilwaith trafnidiaeth eraill sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd fel cynllun a fyddai'n darparu gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth strategol.

2.5 Er bod paragraff 7.1.41 yn y Cynllun Cyfansawdd (2016) yn cadw testun ategol sy'n cyfeirio'n benodol at yr angen am welliannau ar rannau o'r A5025, gwnaed newidiadau wedi hynny i bolisi TRA1 trwy Newid â Ffocws Cyf: NF24 i ddileu unrhyw gyfeiriad penodol at y gwelliannau i rannau o briffordd yr A5025 rhwng y Fali a Wylfa Newydd / Amlwch i Wylfa Newydd. Hefyd tynnwyd 'Ardaloedd Gwella A5025' o Fap Cynigion 1 gan Newid â Ffocws Cyf: NF134. Rhesymeg y Cynghorau dros wneud y newidiadau hyn oedd "i sicrhau eglurder"[4] ac "i sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun".

2.6 Mae'r gwelliannau i'r A5025 yn elfen hanfodol a chynnar o Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig Horizon ar gyfer y Prosiect. Bu Horizon yn gweithio'n helaeth gyda CSYM ar hyrwyddo ar y cyd y cynigion gwelliannau i'r briffordd A5025 mewn perthynas â materion prynu gorfodol a cheisiadau cynllunio sydd ar ddod ar gyfer datblygiadau cysylltiedig.

**2.7** Ystyria Horizon bod cael gwared ar gyfeiriad penodol at y gwaith i wella priffordd yr A5025 (a oedd yn gynwysedig mewn drafftiau cynharach o'r Cynllun) yn dileu'r fframwaith polisi cynllunio clir ar gyfer y gwaith hwnnw. Mae diffyg eglurder angenrheidiol mewn polisi cynllunio yn cyflwyno perygl y gallai'r penderfyniad ar unrhyw gais cynllunio gael ei ohirio a bod yn rhwystr posibl o ran ei gyflenwi.

2.8 Fodd bynnag, mae Horizon wedi cynnal deialog gyda'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ("UPCC") ynglŷn â'r mater hwn ac yn awr wedi cytuno mewn egwyddor i ailosod y cyfeiriad at waith gwella'r A5025 yn rhan 4 (iii) Polisi TRA1, ac 'Ardaloedd Gwella'r A5025' yn Map Cynigion 1. Mae'r union eiriad manwl a therfynol yn destun i drafodaethau parhaus, y ceir copi ohono yn Atodiad 1.

**b) A yw'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer tai i weithwyr adeiladu a chyfleusterau cysylltiedig, yn ystod y cyfnod adeiladu?**
*(Cwestiwn 3(c) yn Datganiad Gwrandawiad 9 - Agenda Materion)*

2.9 Mae Horizon wedi gwneud cyflwyniadau manwl o fewn ei Ddatganiadau Gwrandawiad ar gyfer Sesiynau 1 a 2 yn esbonio ei bryderon ynglŷn â sut mae polisïau tai'r Cynllun yn delio â gweithwyr adeiladu dros dro. Dibynnir ar y cyflwyniadau hynny ac ni ailadroddir hwy yma.

---

[4] Atodlen Newidiadau â Ffocws i Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd, Cynllun Adnau, 2011 - 2026 (Chwefror 2016)

Yr hyn sy’n dilyn yw crynodeb o safle Horizon.

**2.10** Mae angen nifer o ddatblygiadau cysylltiedig i gefnogi adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) cyfleuster parcio a theithio, canolfan logisteg a nifer o safleoedd Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro ("TCWA"). Gellir rhannu TCWA yn fras yn ddau is-gategori: Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd) a Gweithwyr Dros Dro (Tai Parhaol). Ceir disgrifiad o'r ddau yn Atodiad 4.

2.11 Ystyria Horizon bod diffyg eglurder sylfaenol yn y Cynllun ynghylch pa agweddau ar bolisïau cynllunio sy’n berthnasol i'r ddau is-gategori o TCWA.

2.12 Mae angen cydnabod gwahanol natur a nodweddion y ddau gategori o TCWA wrth ddefnyddio nifer o bolisïau cynllunio. Ystyria Horizon y byddai polisïau sy'n berthnasol ar hyn o bryd i TCWA, heb eu diwygio, hefyd yn berthnasol i’r ddau is-gategori. Mae'n annerbyniol ei fod yn cael ei adael yn agored i’w ddehongli p’un a ddylai Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd) fod yn destun i'r un profion polisi â Gweithwyr Dros Dro (Tai Parhaol). Mae'r prif bryder hwn yn berthnasol i bolisïau cynllunio TAI3, PS12, PS15, ISA2, ISA5, TAI5, TAI8, TAI9, TAI14, TAI15, TAI16 a TAI17.

2.13 Ceir enghraifft o bryderon Horizon gyda meysydd penodol o gonsyrn yn Adran 2 Datganiad Gwrandawiad 2 (Darpariaeth Tai) lle ceisir newidiadau i bolisi TAI3, ac yn Natganiad 6 (Economi) lle ceisir eithriadau eraill.

2.14 Prif bryderon Horizon o ran y mater hwn yw bod polisïau o'r fath, os cânt eu mabwysiadu, o bosibl yn berthnasol i'r ddau fath o TCWA. Byddai hyn yn arwain at ganlyniadau annerbyniol, er enghraifft defnyddio polisïau sy'n ymwneud â datblygiad preswyl parhaol i Weithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd).

2.15 Rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaethau perthnasol sy'n nodi fel arall.[5] Fodd bynnag, mae Horizon yn bryderus y gallai cynnwys nifer o bolisïau nad ydynt â digon o hyblygrwydd arwain at sefyllfa lle’r ystyrir bod cynigion datblygu yn gwrthdaro â'r Cynllun Datblygu pan nad dyna’r pwrpas a fwriadwyd.

[5] Section 70(2) of the Town and Country Planning Act 1990 and Section 38(6) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004

Mae llawer o'r senarios y mae Horizon yn eu codi yn y datganiad gwrandawiad am Sesiwn 3 (Darpariaeth Tai) yn gwbl rhagweladwy, megis y dylai'r Cynllun gynllunio'n benodol ar eu cyfer. Er enghraifft:

- os caiff ei fabwysiadu ar ei ffurf bresennol, byddai polisi ISA5, er enghraifft, ar yr wyneb yr un mor berthnasol i'r ddau is-gategori o TCWA, er gwaethaf bod nodweddion Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd) yn amrywio'n fawr oddi wrth rhai Gweithwyr Dros Dro (Tai Parhaol) - oni bai y cânt eu heithrio'n benodol, gallai hyn gael y canlyniad anfwriadol o ofyniad i ddarparu lle chwarae i blant ar gyfleusterau a gynlluniwyd yn benodol i'w feddiannu gan weithwyr unigol heb deuluoedd;

- yn yr un modd, tra bod Horizon yn cydnabod yr angen am lefel briodol o fannau agored yn achos Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd), bydd yr anghenion hynny'n dra gwahanol i Weithwyr Dros Dro (Tai Parhaol) neu ddatblygiadau tai normal/ parhaol.

**2.16** Er bod paragraff 7.1.24 yn awgrymu y gellid cael peth llacio, nid yw'r Cynllun yn ddigon eglur ar sut y byddai hyn yn cael ei gymhwyso. Heb yr eglurder hwn, ni fydd y datblygiadau graddfa fawr hyn yn cael eu harwain gan y cynllun. Gallai'r diffyg eglurder hwn arwain at oedi wrth benderfynu ar geisiadau o'r fath, gan greu anfantais i brosiect seilwaith pwysig. Mae angen adeiladu i mewn eglurder a hyblygrwydd priodol ar gyfer y senarios hyn.

2.17 Felly ystyria Horizon bod anhyblygrwydd presennol yn golygu nad yw'r Cynllun yn gadarn, gan fethu â chwrdd y prawf cadernid yn PCC[6] a phrawf cadernid CE4[7] yn y Cynllun.

**c) A ddylai'r Cynllun gynnwys cyfres o bolisïau penodol i ymdrin â phrosiect Wylfa Newydd? A yw'r Cynllun, a gefnogir gan y Canllawiau Cynllunio Atodol arfaethedig diwygiedig NNB Wylfa, yn darparu fframwaith priodol ac effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd?**
*(Cwestiwn 3(e) yn Datganiad Gwrandawiad 9 - Agenda Materion)*

[6] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)
[7] Paragraff 1.17 yn y Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig o CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

**2.18** Ystyria Horizon nad yw'r Cynllun yn hyn o bryd yn darparu fframwaith polisi digon clir i gefnogi a darparu rheolaeth angenrheidiol ar gyfer elfennau sylweddol o Brosiect Wylfa Newydd. Mae cryn ansicrwydd ynghylch pa bolisïau sy'n berthnasol, a sut y byddant yn cael eu cymhwyso. Gan fod angen i Horizon gael datblygiadau cysylltiedig i gyflenwi Wylfa Newydd, mae hyn yn cyflwyno risg clir iawn i'r Prosiect ei hun.

**2.19** Ystyria Horizon mai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddarparu fframwaith polisi cynllunio clir, ac felly gwneud y Cynllun yn gadarn, fyddai drwy gyflwyno polisïau penodol i'r Wylfa. Fodd bynnag, mae'r UPCC wedi gwrthod polisïau penodol Wylfa Newydd arfaethedig Horizon yn ystod y gwahanol gyfnodau o baratoi'r cynllun.

2.20 Ystyria UPCC nad yw polisïau penodol i Wylfa Newydd yn angenrheidiol ac ar y sail honno maent wedi gwrthod cais Horizon i ymgysylltu ar ddrafftio'r fath bolisïau.

2.21 Derbynia Horizon ei fod yn annhebygol o gyflawni polisïau penodol i Wylfa Newydd heb ymgysylltiad a chefnogaeth UPCC. Yng ngoleuni hyn, nid yw Horizon yn mynd ar ôl dull polisïau sy'n benodol i Wylfa Newydd, ond yn hytrach yn dilyn dull amgen o geisio diwygiadau penodol i bolisïau drafft presennol.

2.22 Mae'n hanfodol bod y Cynllun yn cael ei fireinio a'i ddiwygio fel bod gwahaniaeth clir rhwng y polisïau hynny sy'n ymwneud â chynigion sy'n berthnasol yn gyffredinol a'r rhai sy'n ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd (datblygiadau cysylltiedig yn arbennig). Heb y mireinio hwn, mae gormod o ansicrwydd ynghylch pa bolisïau fydd yn berthnasol a sut y byddant yn cael eu cymhwyso.

# 3 NEWIDIADAU A GEISIR

**3.1** Mae Horizon o'r farn bod diwygiadau yn angenrheidiol i ddarparu'r sicrwydd sydd ei angen, y gallai eu habsenoldeb fel arall ragfarnu'n erbyn cyflenwi'r datblygiadau cysylltiedig, ac felly Prosiect Wylfa Newydd. Mae angen diwygio nifer o bolisïau i sicrhau bod y Cynllun yn ddigon hyblyg ac yn darparu mecanwaith clir ar gyfer gweithredu polisïau mewn perthynas â'r Prosiect.

3.2 Dim ond newidiadau a gynigir i Bolisi TRA1 a Map Cynigion a geir yn y Datganiad hwn i osgoi ailadrodd gyda datganiadau gwrandawiad eraill ac mewn ymateb uniongyrchol i gwestiynau a ofynnwyd gan yr Arolygydd. Darperir newidiadau penodol i Bolisi TRA1 yn Atodiad 1 tra bod Horizon yn cynnig ailosod Ardaloedd Gwella'r A5025 yn y Cynllun.

3.3 Hefyd ystyria Horizon ei bod yn hanfodol bod ei ddiwygiadau awgrymedig i bolisïau PS1, TAI3, CYF1, CYF4, PS12, MAN6, TWR1, PS15 a PS16; Paragraffau 7.3.25 & 7.3.55; a Map Cynigion 1 (ailgyflwyno A5025) a Map Cyfyngiadau 1 (dileu dynodiad Trwyn yr Wylfa fel GNL a safle bywyd gwyllt ymgeisiol) fel y nodir uchod ac mewn datganiadau gwrandawiad eraill yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun i gwrdd â'r prawf cadernid a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

# ATODIAD 1 - TRA1: MAP 1 DATBLYGIADAU A CHYNIGION RHWYDWAITH TRAFNIDIAETH

**POLISI TRA1: 'DATBLYGIADAU RHWYDWAITH TRAFNIDIAETH' A MAP CYNIGION 1**

Noder bod y newidiadau i Ddatganiad Ysgrifenedig Fersiwn Gyfansawdd y CDLl ar y Cyd (2016) i Bolisi TRA1 yn cael eu dynodi fel a ganlyn:

Newidiadau mewn ***italig coch*** yw'r rhai a gynigir gan Horizon.

Newidiadau mewn **melyn** yw newidiadau pellach a gynigiwyd gan Horizon ar 11/8/16

***"TRA1: DATBLYGIADAU RHWYDWAITH TRAFNIDIAETH***

***4.(iii) A5025 Fali i Wylfa ~~/~~ a gwelliannau seilwaith trafnidiaeth eraill sy'n gysylltiedig â'r datblygiad niwclear newydd yn Wylfa Newydd gan gynnwys gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd lle mae angen gwella ar yr adran honno ~~lle mae'r fath angen~~ yn cael ei ddangos yn dilyn datblygiad Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Gyfunol i Brosiect Wylfa Newydd ~~gan gynnwys Hyb Corfforaethol~~"***

**Byddai'r newidiadau a gynigir hefyd yn gweld cyfeiriad at weithiau'r A5025 yn cael eu hailosod ar Fap Cynigion 1.**